# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Medi 2017

Amser: 09.35 - 14.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4420

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Denise Inger, SNAP Cymru<br>Caroline Rawson, SNAP Cymru<br>Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes<br>Tania Nicholson, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru<br>Charlie Thomas, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Sesiwn dystiolaeth y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): SNAP Cymru

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Denise Inger, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr SNAP Cymru, a Caroline Rawson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol SNAP Cymru ynghylch y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

## 4 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes; Emma Williams, Uwch Swyddog Cyfrifol, Llywodraeth Cymru; Tania Nicholson, Pennaeth y Rhaglen Ddeddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol, Llywodraeth Cymru; a Charlie Thomas, Pennaeth Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

4.2 Cytunodd y Gweinidog i roi dadansoddiad o'r 'costau suddedig' a dynnwyd o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 27 Medi 2017

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Gohiriwyd yr eitem tan ddydd Mercher 27 Medi 2017.

## 8 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: recriwtio Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Trafododd Pwyllgor bapur ynghylch recriwtio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 9 Craffu ar y gyllideb: ymgymryd â gwaith craffu ar y gyllideb a goruchwylio ariannol; datblygu arfer da a gwneud gwahaniaeth

9.1 Cyflwynodd Alex Brazier, Aelod Cyswllt o Global Partners Governance, sesiwn hyfforddi ynghylch craffu ar y gyllideb: ymgymryd â gwaith craffu ar y gyllideb a goruchwylio ariannol; datblygu arfer da a gwneud gwahaniaeth.